Gorffennaf 2023

**Annog pobl ifanc i gadw'n ddiogel o amgylch dŵr agored ar ôl y trychinebau diweddaraf**


Annwyl Bennaeth,

Mae cynnydd amlwg wedi bod yn nifer y trychinebau mewn dŵr ac o'i gwmpas ymhlith pobl ifanc, ac mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i atal mwy o farwolaethau.

Bu farw pedwar o bobl dan 20 oed mewn boddi damweiniol yng Nghymru yn 2022 - y nifer uchaf ers i ddata cymharol gael ei gyhoeddi gan Gronfa Ddata Digwyddiad Dŵr y Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol (WAID) yn 2015. Roedd cyfanswm o 22 o farwolaethau yn lleoliadau mewndirol ac arfordirol yng Nghymru o ganlyniad i foddi damweiniol yn 2022 ac rydym eisoes wedi gweld nifer o foddi damweiniol eleni.

Hoffem ni yn Nofio Cymru, yr RNLI a Diogelwch Dŵr Cymru, gael eich cefnogaeth i godi ymwybyddiaeth bellach o'n negeseuon diogelwch dŵr i blant a phobl ifanc ar bwysigrwydd cadw'n ddiogel o amgylch yr arfordir a dyfrffyrdd mewndirol fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yn ystod yr haf.

Mae un achos o foddi yn ormod. Byddem yn annog eich staff addysgu i ailadrodd ein pedwar awgrym achub bywyd syml i blant a phobl ifanc i'w helpu i gadw'n ddiogel o amgylch dŵr agored.



**Adnoddau**

Gweler ein taflen Dŵr Smart ar y negeseuon diogelwch dŵr allweddol a gofynnwn yn garedig i chi ei rhannu gyda'ch myfyrwyr a'u rhieni / gofalwyr.

Mae banc o weithgareddau addysg rhad ac am ddim sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ar gael hefyd. Mae'n hawdd defnyddio gwefan StayWiseCymru - dewiswch grŵp oedran, pwnc neu thema, a byddwch yn dod o hyd i gasgliad o adnoddau i gadw myfyrwyr yn brysur. Ewch i'r wefan nawr: www.staywisecymru.co.uk.

Mae Diogelwch Dŵr Cymru yn gofyn am eich cefnogaeth i rannu'r adnoddau hyn cyn diwedd y tymor ysgol trwy wefan eich ysgol a'ch cyfryngau cymdeithasol.

Cadwch yn ddiogel yn y dŵr,



Fergus Feeney

Prif Weithredwr, Nofio Cymru



Chris Cousens

Arweinydd Diogelwch Dŵr,
Cadeirydd yr RNLI,
Diogelwch Dŵr Cymru

***Data Cefnogol:***

Mae'r ffigurau diweddaraf o'r Gronfa Ddata Digwyddiadau Dŵr (WAID), sy'n cael ei chynnal gan y Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol, yn nodi tueddiadau boddi yn 2022.

**Mae ffigurau Fforwm Diogelwch Dŵr Cymru ar gyfer marwolaethau trwy foddi damweiniol allweddol Cymru yn cynnwys yr ystadegau isod:**

- Roedd **22** o farwolaethau damweiniol
- Roedd **91%** o'r marwolaethau damweiniol yn ddynion
- **Dynion rhwng 10 a 19 oed** oedd y grŵp uchaf ar gyfer marwolaethau damweiniol
- Roedd **50%** o farwolaethau boddi damweiniol wedi digwydd ar yr arfordir a **50%** mewn dyfrffyrdd mewndirol
- Roedd gweithgareddau hamdden yn cyfrif am **72%** o'r marwolaethau damweiniol
- Nid oedd gan **28%** o bobl unrhyw fwriad i fynd i mewn i'r dŵr, megis y rhai oedd yn cerdded, gydag achosion yn cynnwys baglu, llithro a chwympo, cael eu torri i ffwrdd gan y llanw, neu gael eu hysgubo i'r dŵr gan y tonnau.
- Digwyddodd **46%** o'r marwolaethau boddi yng Nghymru ym misoedd Mehefin, Gorffennaf ac Awst.